
**<u>Yr her</u>:**

**Mae mis Mai yn dod â Chymru ynghyd i holl fwrlwm Eisteddfod. Eleni Cawn Eisteddfod T – i ti, o'r tŷ! Beth am ddysgu mwy am Gymru, yr ardal leol a'i enwogion?**






## <u>Pwyntiau trafod i rieni:</u>

- Pa liwiau sydd ar faner Cymru?
- Ydych chi'n gallu darganfod Cymru ar y map?
- Beth yw eich hoff gân Gymreig?
- Beth yw rhai o fwydydd traddodiadol Cymru?
- Pwy yw arwyr Cymru? Ydych chi'n gallu eu henwi?

# Cynllun pythefnos: Cymru (Meithrin & Derbyn)

## Rhaid gwneud...

- Adnabod llythrennau wyddor
- Ymarfer ffurfio llythrennau'r wyddor
- Ymarfer ffurfio enw
- Darllen yn reolaidd– darllen a gwrando ar storïau.
- Ymarfer canu caneuon / hwiangerddi

- Ymarfer adnabod rhifau
- Ymarfer ffurfio rhifau
- Adrodd rhifau yn eu trefn – ymlaen ac yn ôl
- Adio a thynnu ymarferol

- Joe Wicks - sesiwn fyw ar 'YouTube' am 9:00yb
- Cofiwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')
- Cosmic Kids Yoga - sesiwn ar 'YouTube'
- Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo.
- Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd ayyb.

## Dylech wneud...

| Llythrennedd | Rhifedd | Thema |
|---|---|---|
| Ydych chi'n gallu meddwl am eiriau sy'n dechrau gyda C? Beth am greu lluniau/creu rhestr o'r pethau yma? | Mae Mr Urdd yn siâp triongl. Ydych chi'n gallu chwilio am bethau yr un siâp â Mr Urdd? Beth am geisio creu trionglau gan ddefnyddio deunyddiau naturiol? | Ewch ati i adeiladu castell gan ddefnyddio deunydd o'ch dewis e.e. LEGO, duplo, blocaiu, bocsys ailgylchu, deunydd naturiol (brigau ag ati). Beth am esgus eich bod yn filwyr yn y castell yma? |
| Meddyliwch am eich hoff lyfr Cymraeg. Beth am drafod y lluniau a'r digwyddiadau o'r stori. Tynnwch lun y clawr. | Pa liw yw Mr Urdd? Ydych chi'n gallu chwilio am bethau coch, gwyn a gwyrdd? Trefnwch nhw mewn i setiau. Oes mwy o bethau coch/gwyn/gwyrdd gyda chi? Sawl peth sydd ymhob set? | Ewch ati i ddarlunio baner Cymru/Mr Urdd/Castell/Cennin Pedr gan ddewis paent, pensiliau lliw, pin ffelt, ar Hwb ayyb. |
| Gweithiwch gydag oedolyn i greu cynhwysion ar gyfer creu pice ar y maen/cawl/bara brith. Tynnwch lun/rhestr o'r cynhwysion. | Beth am dynnu lluniau cennin pedr, dreigiau, peli rygbi, cestyll mawr, canolig a bach? Torrwch a threfnwch y lluniau. | Perfformiwch eich hoff hwiangerdd Cymraeg/cân Mr Urdd. Beth am gael aelodau eich teulu i ymuno? Rhannwch eich clip gyda'ch athro ar Hwb neu Trydar. |

## Gallaf wneud...

| | | |
|---|---|---|
| Heriau LEGO<br>Llyfrau sain David Walliams<br>Newsround – darllen y newyddio diweddaraf<br>ACTIV-I-TI – ar lein o 1:00yp<br>Science experiment<br>Science Investigations – STEM website stemsational.com<br>Adnoddau twinkl–Mynychwch y wefan am ddim<br>www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd<br>UKTWINKLHELPS<br>Zumba Kids | Minecraft<br>Cymuned y Sgarlets– Sgiliau Mathemateg<br>Carol Vorderman – 'My Maths School'<br>Cip ar Fathemateg<br>SGILIAU – gemau i'w chwarae adref/clwb ysgol ar Facebook<br>Celf Helen Elliot – Pob dydd mercher a Gwener am3:00yp<br>Orielodl – fideo cam wrth gam<br>Criw Celf, Huw Aaron – pob dydd am 3y.p<br>Llifo'n Llawen – Yoga<br>Just Dance – 'Youtube' | Dawnsio gyda Oti Mabuse<br>PBSkids.org - Gemau Darllen i blant<br>BBC Bitesize<br>Hour of Code<br>Gwefan TopMarks Mathemateg<br>Gwefan MathsFrame Mathemateg<br>mathsalamanders.com<br>Gwersi canu gyda Myleene Klass am 10:00 yb<br>Coginio gyda Jamie Oliver am 12:00 yp<br>Traed Bach Sionc (Busy Feet) - Youtube |